

No.

PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Cynghorydd J.M. Norman (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, L. Burnett, V.P. Driscoll, C.P. Franks, E. Goodjohn, H.C. Hamilton, W.A. Hennessy, N.B. Marshallsea. M.J.G. Morgan a R. Sivagnanam.

506 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

507 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gyngorwyr S.T. Wiliam a M.R. Wilkinson.

508 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2023 fel cofnod cywir.

509 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

510 DEDDF TIROEDD COMIN 2006 – CAIS I GOFRESTRU TIR YN FAES TREF NEU BENTREF – TIR YN RINGWOOD CRESCENT, SAIN TATHAN (RGGC) -

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Gyfreithiwr i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar y cais i gofrestru'r tir yn Ringwood Crescent fel maes pentref neu dref dan Adran 5(2) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006.

Roedd tudalen 20 yr adroddiad yn dangos diagram yn dangos bod y tir wedi'i rannu'n ddau barsel ac roedd yr adroddiad manwl yn cynnwys y ceisiadau, y

No.

deunyddiau a'r gwrthwynebiadau. Gwnaed cais ym mis Chwefror 2023 i'r Cyngor yn ei rôl fel Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin ac roedd dirprwyaeth i'r Pwyllgor ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r swyddogaeth honno. Ar ôl cael cyhoedduswydd gan y Cyngor yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, codwyd gwrthwynebiad gan Annington Property Limited, sef perchnogion y tir.

Mae paragraff 1.2 yr adroddiad yn nodi'r prawf cyfreithiol yr oedd angen i'r Pwyllgor ei ystyried mewn perthynas ag a ddylai cais fod yn llwyddiannus ai peidio dan Adran 15(2) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006, yn benodol *"pan fo nifer sylweddol o drigolion unrhyw ardal leol, neu o unrhyw gymdogaeth o fewn ardal leol, wedi cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon drwy hawl ar y tir am gyfnod o 20 mlynedd o leiaf a phan fyddant yn parhau i wneud hynny ar adeg y cais."*

Ar gyfer y cais, disgrifiwyd yr ardal leol fel ward Sain Tathan, ond y defnydd o'r tir ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon drwy hawl oedd y pwynt hanfodol yn y cais. Awgrymodd y swyddogion fod drwy hawl yn golygu bod yn rhaid i'r ymgeisydd neu'r bobl a oedd yn hawlio'r maes tref neu bentref fod wedi ymgymryd â'r gweithgareddau hamdden cyfreithlon hynny heb gyfrinachedd, heb orfodaeth neu heb ganiatâd, ac mai'r elfen heb ganiatâd oedd i gael ffocws yn y cais.

Roedd tystiolaeth o fewn y cais o enwau 160 o bobl yn yr ardal leol, gan nodi pa weithgareddau a gyflawnwyd ar y tir dan sylw yn ystod y cyfnod o 20 mlynedd, sef cerdded, cerdded cŵn, picnics a gemau pêl yn bennaf. Roedd y gwrthwynebiad i'r cais yn honni bod yr ymgeisydd wedi methu â nodi ardal leol briodol, ac yna mewn unrhyw achos, nad oedd y dystiolaeth o'r 160 o ddefnyddwyr yn gyfystyr â nifer sylweddol o drigolion yr ardal leol.

Nododd y gwrthwynebydd nad oedd y defnydd a hawliwyd drwy hawl, ond yn hytrach yn ôl hawl, gan fod y defnydd gan drigolion rhifau 1 i 8 Ringwood Crescent wedi'i ganiatáu gan yr hawliau datganedig a gynhwyswyd yn y trosglwyddiadau o'r eiddo hynny o Annington Property i'r perchnogion, a gellid gweld enghreifftiau ohonynt ar dudalen 257 yr adroddiad. Ar ben hynny, roedd arwyddion ar y tir a ganiataodd yn benodol i'r cyhoedd ddefnyddio'r tir at ddibenion hamdden, ac roedd yr arwyddion hynny wedi bod yn bresennol ar y tir ers o leiaf mis Medi 2009, a dorrodd dros y cyfnod o 20 mlynedd, a gellid gweld enghreifftiau ohonynt ar dudalennau 285 i 298 yr adroddiad, yn ogystal â map ar dudalen 284 yn dangos lleoliadau'r arwyddion a'r arwyddion eu hunain a'r hyn a ysgrifennwyd ar yr arwyddion hynny. Rhoddwyd y gwrthwynebiad i'r ymgeisydd nad oedd yn ceisio herio'r ffaith bod yr arwyddion hynny ar y tir ond a gyfeiriodd at y ffaith nad oedd perchennog yr eiddo wedi codi'r arwyddion. Fodd bynnag, gallai perchennog y tir fod wedi symud yr arwyddion hynny pan brynwyd y tir ac roedd wedi dewis peidio â'u symud.

Pwynt olaf y gwrthwynebiad oedd bod y dystiolaeth a gyflwynwyd wedi methu â rhoi digon o dystiolaeth ynghylch natur ac amseriad y defnyddiau hamdden a gynlluniwyd a'r lleiniau o dir yr oedd yn ymwneud â nhw.

Roedd Swyddogion y Cyngor wedi adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd a'r gwrthwynebydd ac roedd eu hymateb wedi'i gynnwys ym

No.

Mharagraff 1.12 yr adroddiad, a chynigiwyd ymhellach y gallai'r cais gael ei benderfynu gan y Cyngor yn rhinwedd ei gapasiti fel Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin a gwrthod y cais heb gynnal ymchwiliad cyhoeddus anstatudol.

Er mwyn cadarnhau'r ddealltwriaeth hon, gofynnodd y Swyddogion Cyfreithiol am gyngor cyfreithiol allanol a grynhowyd ym Mharagraff 1.14 yr adroddiad, a oedd yn nodi mai cyngor y Cwnsler oedd bod gan y Cyngor ddisgresiwn ynghylch sut i benderfynu ar y cais, cyn belled â'i fod yn fodlon bod ganddo ddigon o wybodaeth i benderfynu ar y cais ac os na, penderfynu ar y camau rhesymol i gael gwybodaeth ddigonol. Barn Swyddogion y Cyngor yn dilyn hynny oedd bod tystiolaeth glir mewn perthynas â'r defnydd o'r tir drwy hawl neu'n ôl hawl, gan fod yr arwyddion hynny ar waith ac wedi bod ar waith ers o leiaf 2009, a dorrodd dros y cyfnod o 20 mlynedd sy'n ofynnol i'r ymgeisydd brofi y dylid cofrestru'r tir fel maes tref neu bentref.

Cyfeiriodd y Prif Gyfreithiwr at y ddau argymhelliad yn yr adroddiad ac roedd yn hapus i gymryd cwestiynau ynghylch yr adroddiad.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan unrhyw Aelodau o'r Pwyllgor gwestiynau i'r Prif Gyfreithiwr.

- Gofynnodd y Cynghorydd Bruce a oedd 'trigolion unrhyw ardal leol' yn cyfeirio at ward cyfan Sain Tathan. Dywedodd y Prif Gyfreithiwr mai ei ddealltwriaeth oedd bod y cais wedi'i wneud ar y sail honno.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Hennessy at y rhestr o drigolion a oedd wedi nodi pa weithgareddau oedd wedi'u cynnal ar y tir dan sylw a nododd nad oedd yr un ohonynt wedi dweud nad oeddent erioed wedi defnyddio'r tir dan sylw a gofynnodd pam y cymeradwywyd y cais heb fod angen dod i'r Pwyllgor. Dywedodd y Prif Gyfreithiwr fod y cais yn bodloni dim ond un rhan o'r prawf cyfreithiol i fod yn gymwys i gael ei gofrestru fel maes tref neu bentref. Roedd y tir yn cael ei ddefnyddio drwy hawl gan fod tystiolaeth glir i ddangos bod perchennog y tir wedi rhoi caniatâd i'r cyhoedd ddefnyddio'r ardaloedd hynny at ddibenion hamdden drwy'r arwyddion a godwyd ar y safle. O'r herwydd, nid oedd y tir dan sylw yn gallu cael ei gofrestru fel maes tref neu bentref dan y prawf cyfreithiol llym a nodwyd yn Adran 15(2) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006.
- Gofynnodd y Cynghorydd Norman pam fod y mater wedi dod i'r Pwyllgor i'w benderfynu o ystyried bod cyngor Cwnsler cyfreithiol allanol wedi cael ei geisio a'i fod yn ymddangos ei fod yn cyfateb i gyngor y Swyddogion. Dywedodd y Prif Gyfreithiwr mai'r Pwyllgor oedd y corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer y mater. Roedd y swyddogion wedi gwneud argymhelliad, ond roedd gan y Pwyllgor yr hawl i ddod i'w gasgliad ei hun wrth benderfynu ar y mater, fel y nodwyd yn yr Argymhelliad i'r adroddiad.
- Gofynnodd y Cynghorydd Bruce a oedd yn hysbys pam fod perchennog y tir yn gwrthwynebu i'r tir gael ei gofrestru fel maes tref neu bentref. Dywedodd y Prif Gyfreithiwr ei bod yn gyffredin i berchenogion tir wrthwynebu ceisiadau o'r fath gan y byddai cais llwyddiannus yn cyfyngu ar allu perchennog y tir i ddelio â'i dir ei hun fel y dymunodd. Yn yr achos hwn, mae perchennog y tir wedi gwrthwynebu gan ei fod yn teimlo nad

No.

oedd y cais yn bodloni'r profion statudol i gael ei gofrestru fel maes tref neu bentref.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau pellach gan Aelodau'r Pwyllgor. Yna gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod ward lleol, y Cynghorydd Haines, i siarad gerbron y Pwyllgor.

Diolchodd y Cynghorydd Haines i'r Pwyllgor am ganiatáu iddo siarad ar y mater. Roedd tudalen 18 yr adroddiad yn cynnwys map a oedd yn dangos bod yr ardal yn rhan o Drefflemin, tua milltir a hanner o unrhyw gyfleusterau eraill heblaw am Eglwys a chlwb golff preifat. O'r herwydd, roedd y tir hwnnw o fewn y gymuned yn gweithredu fel maes pentref ac yn gwasanaethu un o'r cymunedau tlotaf yng ngorllewin y Fro. Roedd trigolion yn llai tebygol o fod yn berchen ar geir ac felly byddai cael gwared ar fan gwyrdd o fewn pellter cerdded yn niweidiol iddynt. Roedd datblygiad newydd i'r gogledd hefyd yn cynnwys dau i dri chant o dai. Nododd y Cynghorydd Haines, o'r 160 o ymatebion a dderbyniwyd i'r cais, fod y rhan fwyaf ohonynt yn dod o ardal o tua 300 o dai, felly byddai'n effeithio ar gyfran fawr o'r un gymuned. Dywedodd y Cynghorydd ei fod wedi byw yn Sain Tathan ac wedi defnyddio'r safle hwnnw ers blynyddoedd lawer, fel y mae ei blant wedi'i wneud hefyd, a mynegodd bryder, pe na bai'r safle yn cael ei gofrestru fel maes tref neu bentref, y byddai'r tir yn cael ei ddefnyddio yn y pen draw ar gyfer tai mewn ardal nad oedd hyd yn oed siop ynddi. Roedd Jane Hutt AoS: Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip wedi cyfeirio at bocedi o dlodi yng ngorllewin y Fro gan ddweud bod angen amddiffyn cyfleusterau ar gyfer trigolion lleol. Ychwanegodd er bod arwyddion wedi cyfeirio at beidio â chaniatáu i gŵn gael eu cerdded ar y tir, ei fod wedi derbyn nifer o gwynion am gerddwyr cŵn nad ydynt yn codi baw y cŵn hynny, gan awgrymu bod pobl yn defnyddio'r tir heb ganiatâd, ac anogodd y Pwyllgor i gefnogi trigolion Sain Tathan a chaniatáu'r cais i'r tir gael ei gofrestru fel maes tref neu bentref.

Ni ofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r Cynghorydd Haines a gofynnodd y Cadeirydd i'r eiriolwr, Cyfreithiwr Cynllunio o Eversheds Sutherland yn gweithredu ar ran perchennog tir y cais, siarad gerbron y Pwyllgor.

Nododd yr eiriolwr fod y cais wedi'i wneud ar sail Adran 15(2) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 fel y disgrifiwyd ym Mharagraff 1.2 yr adroddiad, tra bod perchennog y tir, Annington Property Ltd., wedi dweud bod y cais wedi methu â bodloni pob agwedd ar y meini prawf yn Adran 15. Canolbwyntiodd ar yr elfen drwy hawl, gan nodi ei bod yn amlwg o'r papurau na fyddai'r ymgeisydd byth yn gallu dangos yr agwedd honno ar y meini prawf statudol y bu'n rhaid ei chyflawni fel y nodwyd eisoes, mae drwy hawl yn golygu defnyddio'r tir heb ganiatâd neu gyfrinachedd gorfodol. Dywedodd yr eiriolwr ei bod yn amlwg bod y defnydd o'r tir yn y cais wedi digwydd gyda chaniatâd y perchennog, ac felly roedd y defnydd yn ôl hawl ac nid drwy hawl.

Annington Property Ltd oedd perchennog cofrestredig safle'r cais ers o leiaf 2002. Yn wreiddiol, roedd y safle ei hun wedi bod yn rhan o ystâd fwy oedd yn eiddo i'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Roedd Annington wedi gwerthu gwahanol leiniau o fewn yr ystâd yn gynnar yn y 2000au, sef yr eiddo yn 1-8 Ringwood Crescent erbyn hyn. Roedd arwyddion hefyd yn yr eiddo a oedd wedi bod yno ers nifer o

No.

flynyddoedd ac a roddodd ganiatâd i aelodau'r cyhoedd ddefnyddio'r safle at ddibenion hamdden.

Cyfeiriodd yr eiriolwr at y pwynt a wnaed ynglŷn â cherdded cŵn a bod yr arwyddion yn yr ardal honno yn ymwneud â'r hen ardal chwarae i blant a oedd gynt wedi bod ar y safle ond nad oedd yno mwyach ar ôl cael ei waredu rai blynyddoedd yn ôl.

Dywedodd fod y dystiolaeth yn ei gwneud yn glir bod y defnydd o safle'r cais wedi bod gyda chaniatâd perchennog y tir ac na ellid bodloni'r meini prawf statudol sy'n ymwneud â drwy hawl felly, gyda'r ymgeisydd heb ddadlau'r defnydd o'r tir at ddibenion hamdden. Dywedodd y byddai cyflwyno'r achos i ymchwiliad cyhoeddus yn gost ddiangen a chyda chefnogaeth barn y cyngor cyfreithiol annibynnol a gafodd y Cyngor i y dylai argymhelliad y Swyddogion yn Argymhelliad 1 yr adroddiad gael ei ddilyn, a'r cais ei wrthod.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan unrhyw Aelodau o'r Pwyllgor gwestiynau i'r eiriolwr.

- Gofynnodd y Cynghorydd Hennessy a fyddai ei gleient yn bwriadu adeiladu ar y darnau o dir pe bai'r cais yn cael ei wrthod. Nid oedd yr eiriolwr yn ymwybodol o fwriadau ei gleient ar gyfer y tir. Roedd yn ymwybodol bod hawliau wedi'u cadw i ddefnyddio'r tir hwnnw at ddibenion amwynder yn y trosglwyddiad, fodd bynnag, nid oedd y cwestiwn hwnnw'n berthnasol i'r profion statudol ar gyfer ffurfio maes pentref. Pe byddai cynnig yn y dyfodol i ddatblygu'r tir, byddai'n amodol ar gais cynllunio ar wahân a fyddai'n cael ei benderfynu ar sail ei rinwedd ei hun gan y Cyngor ac nad oedd yn berthnasol i'r tir yn bodloni'r meini prawf i fod yn faes tref neu bentref.
- Gofynnodd y Cynghorydd Franks am yr ardal chwarae a oedd wedi'i gwaredu, pryd y cafodd ei gwaredu, pwy oedd wedi'i gwaredu a pham nad oedd wedi cael ei disodli. Nid oedd yr eiriolwr yn ymwybodol o'r manylion, ond nid oedd wedi bod yno ers 2009 ac roedd wedi bod yn laswelltir ers ei gwaredu.

Gan na ofynnwyd cwestiynau pellach gan yr Aelodau i'r eiriolwr, gofynnodd y Cadeirydd i gynrychiolydd trigolion Ringwood Crescent siarad gerbron y Pwyllgor.

Gofynnodd y cynrychiolydd i'r Pwyllgor, ar ran trigolion Ringwood Crescent yn Sain Tathan, gytuno i'r cais am faes pentref a pheidio â derbyn casgliadau'r Swyddogion a chyfeirio'r cais at ymchwiliad anstatudol. Byddai hynny'n cynnwys penodi Cadeirydd annibynnol â chymwysterau cyfreithiol a phrofiadol priodol i gynnal ymchwiliad o'r fath.

Ystyriwyd bod tir y cais wedi cael ei ddefnyddio gan nifer sylweddol o drigolion ac roedd yr 160 o holiaduron oedd yn cadarnhau'r defnydd o'r tir yn ddigonol i'r cais fod yn ddilys. Roedd llawer o bobl a oedd wedi cyflwyno holiaduron wedi defnyddio'r tir drwy hawl ac o ganlyniad roedd y cais yn ddilys. Nid oedd unrhyw arwyddion wedi eu codi gan Annington Homes, ac roedd yr arwyddion oedd yno yn hen, yn anodd eu darllen ac nid mewn golwg plaen. Dangosodd y 160 o ymatebion fod y tir wedi cael ei ddefnyddio'n aml dros gyfnod o dros 20 mlynedd

No.

hyd at ddyddiad y cais. Roedd yr ymgeiswyr o'r farn bod eu tystiolaeth ategol yn dangos yn glir bod y defnydd o'r tir yn bodloni'r profion i'r tir gael ei gofrestru ac nad oedd y gwrthwynebiad yn ddilys ac y dylid ei wrthod gan fod y defnydd o dir y cais wedi bod drwy hawl ers o leiaf 20 mlynedd. Felly, dylai'r Cyngor gofrestru tir y cais fel maes pentref newydd.

Nid oedd casgliadau'r cyngor cyfreithiol a gafwyd gan y Cyngor yn rhwymol a gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried pryderon a materion trigolion lleol a galluogi'r materion i gael sylw manwl fel ymchwiliad cyhoeddus er mwyn cefnogi a diogelu buddiannau pobl leol sy'n defnyddio'r tir at ddibenion hamdden a chwaraeon. Roedd diogelu'r tir ar gyfer y gymuned leol yn bwysig iawn ac roedd y gymuned yn wynebu colli mynediad i fan gwyrdd pwysig a hardd.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan unrhyw Aelodau o'r Pwyllgor gwestiynau i'r cynrychiolydd.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Norman at y datganiad ynglŷn â chymhwysedd yr arwyddion a chyfeiriodd at Dudalennau 285-298 yr adroddiad a oedd yn dangos bod yr arwyddion yn ddarllenadwy yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedodd y cynrychiolydd ei fod wedi siarad â phobl oedd yn defnyddio'r cae ac nad oedden nhw erioed wedi sylwi bod yr arwyddion yno. Ni fyddai'r rhan fwyaf o bobl yn gweld yr arwyddion wrth ddefnyddio'r cae.
- Yna gofynnodd y cynrychiolydd i'r eiriolwr am ymgynghoriad y flwyddyn flaenorol ynghylch tai ar y safle. Dywedodd yr eiriolwr nad oedd yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau arfaethedig, fodd bynnag, roedd hawliau wedi'u cadw mewn trosglwyddiadau ar gyfer defnyddio'r tir hwnnw at ddibenion hamdden ac yn y pen draw nid oeddent yn berthnasol o ran a oedd y cais yn bodloni'r meini prawf i fod yn faes tref neu bentref.

Gwnaeth y Prif Gyfreithiwr rai pwyntiau pellach er eglurhad.

- Roedd y Cynghorydd Haines wedi cyfeirio at argaeledd manau agored amgen yn ward Sain Tathan. Er y gallai hynny fod yn ystyriaeth i'r gymuned leol, at ddibenion y cais a phenderfynu ar y cais, nid oedd yr elfennau hynny'n berthnasol gan fod yr unig faterion perthnasol yn ymwneud â'r dystiolaeth benodol a gyflwynwyd mewn perthynas â'r safle.
- Nid oedd darparu cyfleusterau cyhoeddus o fewn cylch gwaith ystyried y cais.
- Nid oedd a oedd perchennog y tir yn cynnig neu â chynlluniau i gynnig cais cynllunio ar gyfer y tir dan sylw, neu at unrhyw ddefnydd arall, yn ystyriaeth berthnasol wrth ystyried y cais i'r tir gael ei gofrestru fel maes tref neu bentref. Roedd y cais ar wahân i unrhyw faterion gwirioneddol neu arfaethedig eraill ac nid oedd yn gyfrwng i atal datblygiad, ond i gadw am byth unrhyw ardaloedd o faes tref neu bentref a oedd yn bodloni'r profion perthnasol.
- Cafwyd sylwadau ynghylch y trosglwyddiadau a'r hawliau a roddwyd o fewn y trosglwyddiadau hynny. Unwaith eto, nid mater i'w benderfynu fel rhan o'r cais oedd y rheiny.
- Roedd yn amlwg yn yr adroddiad bod yr arwyddion lleol ar y safle yn bresennol ac yn ddarllenadwy yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae

Tudalen 284 yr adroddiad yn dangos saith lleoliad yr arwyddion o amgylch y safle a ystyriwyd yn ddigonol i berchennog y tir allu dibynnu ar gynnwys yr arwyddion hynny fel rhoi caniatâd i'r cyhoedd ddefnyddio'r tir hwnnw gyda'i ganiatâd.

- Barn y Swyddogion a'r Cwnsler allanol oedd bod y siawns y bydd y cais yn llwyddiannus yn yr ymchwiliad yn gyfyngedig ac roedd digon o dystiolaeth i'r Pwyllgor wneud penderfyniad i wrthod y cais.

Diolchodd y Cadeirydd i bob parti am ei gyflwyniadau a rhoddodd gyfle i'r Aelodau drafod y cais.

- Dywedodd y Cynghorydd Bruce y byddai'n hoffi gweld mwy o dystiolaeth gan yr ymgeiswyr ac roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth gan berchennog y tir.
- Cynigiodd y Cynghorydd Hennessy fod y Pwyllgor yn mynd i bleidlais wedi'i chofnodi.
- Cododd y Cynghorydd Haines bwynt eglurhad, sef pan oedd yn cyfeirio at gyfleusterau, roedd yn golygu yn benodol yn Nhrefflemin yn hytrach nag yn ward Sain Tathan. Diolchodd y Prif Gyfreithiwr i'r Aelod am yr eglurhad a nododd ei bod yn parhau'n ffaith nad oedd darparu cyfleusterau cyhoeddus o fewn cylch gwaith ystyried y cais.
- Gofynnodd y Cynghorydd Marshallsea beth fyddai'r broses pe bai'r mater yn cael ei gyfeirio at ymchwiliad cyhoeddus. Dywedodd y Prif Gyfreithiwr pe bai'r Pwyllgor yn penderfynu mynd gyda'r argymhelliad amgen a gofyn am ymchwiliad cyhoeddus statudol, y byddai'r Swyddogion yn gweithio i benodi arolygydd allanol a fyddai'n cyflwyno adroddiad pellach ac yna byddai'r ymchwiliad cyhoeddus anstatudol yn cael ei gynnal. Roedd ymchwiliadau o'r fath yn tueddu i ddigwydd rhai misoedd ar ôl y penodiad i sicrhau amser ar gyfer cyfarfodydd cyn ymchwiliad, gosod ffiniau ar gyfer ymchwiliad, ac ati. Byddai hyd yr ymchwiliad yn dibynnu ar faint o dystiolaeth a gyflwynwyd a faint o bobl oedd am roi dystiolaeth ar lafar. Ar ddiwedd yr ymchwiliad, byddai'r arolygydd yn llunio adroddiad terfynol a fyddai'n cael ei ddwyn yn ôl i'r Pwyllgor i'w ystyried. Byddai opsiwn o hyd i'r Aelodau wrthwynebu unrhyw argymhellion a wnaed, ond gan nad oedd proses apelio lem ynglŷn â cheisiadau maes pentref, roedd potensial i'r penderfyniad gael ei adolygu'n farnwrol. Ni fyddai cost i'r naill barti na'r llall o ran y broses; byddai hynny'n cael ei ysgwyddo gan y Cyngor, ar wahân i bob parti yn talu ei gostau cyfreithiol ei hun.
- Roedd y Cynghorydd Morgan yn gwerthfawrogi'r materion a godwyd ac am yr awydd i gael maes pentref fel cyfleuster i bobl leol, fodd bynnag, roedd y canllawiau cyfreithiol ar y mater i'w gweld yn glir a bu'n rhaid i'r Pwyllgor fod yn ymwybodol o hynny. Roedd yn ymddangos yn glir bod y tir yn cael ei ddefnyddio ond bod pobl leol wedi cael caniatâd i wneud hynny, gydag arwyddion clir i nodi'r un peth. Nid oedd bygythiad ar hyn o bryd o ran y gymuned yn cael ei hatal rhag defnyddio'r tir. Yn anffodus, ni wnaeth y cais fodloni'r profion statudol ac argymhellodd y dylid gwrthod y cais.
- Nid oedd y Prif Gyfreithiwr am i Aelodau'r Pwyllgor fod dan yr argraff bod gwarant na ellid datblygu'r tir yn y dyfodol yn seiliedig ar y darpariaethau o fewn y trosglwyddiadau sy'n ymwneud â'r hawliau i gael mynediad. Byddai

No.

hynny'n fater preifat i berchennog y tir ei ddilyn ar wahân ac nid oedd yn berthnasol wrth ystyried y cais.

- Roedd y Cynghorydd Sivagnanam yn gwerthfawrogi bod trigolion lleol yn defnyddio'r tir bob dydd ac yn gwerthfawrogi'r dyhead i gofrestru'r tir fel maes tref neu bentref ond cytunodd bod yn rhaid i'r Pwyllgor gael ei arwain gan y gyfraith ac y byddai mynd â'r mater at arolygydd annibynnol yn gost sylweddol i'r Cyngor ac roedd yn fodlon dilyn argymhellion y Swyddog.
- Roedd y Cynghorydd Driscoll o'r farn, er mwyn helpu trigolion lleol, y byddai'n fwy priodol gadael i ymchwiliad cyhoeddus annibynnol benderfynu ar y mater i drigolion Sain Tathan, gan nad oedd cyllid yn fater perthnasol.

Ni cheisiwyd unrhyw drafod, cwestiynau na phwyntiau o eglurhad pellach gan yr Aelodau. Yna darllenodd y Cadeirydd y ddau argymhelliad yn yr adroddiad a chynigiodd fod y Pwyllgor yn derbyn Argymhelliad 1. Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi hynny a phasiwyd y cynnig.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Cyngor:

BENDERFYNU – BOD, ar ôl ystyried y casgliadau mewn cysylltiad â'r Cais ac ystyried dadl pob parti yn y cyfarfod, y Cais i gofrestru'r Tir fel maes tref neu bentref yn cael ei wrthod gan fod yr Ymgeisydd wedi methu â bodloni'r profion statudol dan adran 15(2) o Ddeddf 2006 am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn i'r Cyngor fel Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin gyflawni ei ddyletswydd i benderfynu ar y Cais yn unol â Deddf 2006 a Rheoliadau Tiroedd Comin (Cofrestru Meysydd Tref neu Bentref) (Trefniadau Interim) (Cymru) 2007.